

# Gwasanaeth Therapi Iaith a Lleferydd Cynllun 'Cymorth Cartref'

## LLEFERYDD ANWASTAD

### Pethau i'w gwybod am atal dweud mewn plant

Nid ydi hi bob amser yn syml dysgu sut i siarad. Weithiau bydd plant yn stopio, yn oedi, yn ailgychwyn neu'n baglu dros eiriau.

Rhwng 2 a 5 oed, gall fod yn arferol iawn i blant ailadrodd geiriau ac ymadroddion, neu betruso, dweud "ym" ac "er" wrth weithio allan sut i ddweud rhywbeth.

Mae'r daflen yma'n rhoi gwybodaeth am ddysgu i siarad ac atal dweud – beth i edrych amdano gartref a sut i helpu.



# Pethau i'w gwybod

- Mae gan 5 ymhob 100 o blant atal dweud, ar ryw adeg, wrth ddysgu i siarad. Gall lleferydd fynd yn fwy rhugl wrth iddyn nhw dyfu i fyny neu gall barhau i fod yn anodd.
- Ar unrhyw oedran, gall atal dweud fynd a dod.
- Gall rhuglder newid gan ddibynnu ar y sefyllfa mae'r plentyn ynnddi, sut mae ef/hi'n teimlo, â phwy mae ef/hi'n siarad, a'r hyn mae ef/hi'n ceisio ei ddweud.
- Nid oes unrhyw reswm hysbys am atal dweud –ni ellir ei achosi. Fodd bynnag gall rhedeg mewn teuluoedd ac mae'n fwy cyffredin ymhlith bechgyn na merched.

# Sut mae atal dweud yn swnio?

- Methu cychwyn am ychydig eiliadau ("..... mae fy nhrên i'n mynd yn gyflym iawn")
- Lleferydd dirdynedig neu anwastad
- Gwneud ymdrech ychwanegol wrth ddweud geiriau
- Ailadrodd rhannau o eiriau nifer o weithiau ("ga...ga ... gaf i")
- Ymestyn seiniau mewn gair ("ga i gggggael cacen?")
- Stopio'r hyn sy'n cael ei ddweud hanner ffordd trwy frawddeg

Mae'r mathau o anawsterau'n amrywio o blentyn i blentyn – efallai y byddwch chi'n clywed rhai o'r pethau hyn, neu bob un, pan fydd eich plentyn yn siarad

# Sut i helpu eich plentyn

Efallai y bydd y cynghorion hyn yn helpu eich plentyn i siarad yn fwy rhwydd – ond peidiwch â disgwyl newid ar unwaith.

**Neillfuwch ychydig funudau** am oddeutu'r un amser bob diwrnod i roi eich sylw llawn i'ch plentyn. Cadwch y sefyllfa yn dawel ac wedi ymlacio – Chwaraewch â'r hyn mae ef/hi eisiau ei chwarae a siaradwch am yr hyn mae ef/hi eisiau ei siarad.

**Defnyddiwch iaith syml** â'ch plentyn, "o, 'de ni'n chwarae â briciau" yn hytrach na "o wrth gwrs, wyt ti a fi am eistedd a chwarae efo dy friciau nawr tyden ni".

**Arafwch eich lleferydd eich hun** wrth siarad â'r plentyn yn hytrach na dweud wrtho/wrthi i bwylio, arafu neu gychwyn eto.

**Gadewch i'ch plentyn wybod**

**eich bod chi'n gwrando** trwy edrych arno/arni pan fydd ef/ hi'n siarad â chi. Os ydych chi'n brysur, ceisiwch stopio'r hyn ydych chi'n ei wneud, troi ato/ati ac edrych arno/arni fel ei fod/bod yn gwybod bod ganddo/ganddi eich sylw llawn.



**Edrychwch ar wefan Cymdeithas Afal Dweud Prydain i gael mwy o wybodaeth [www.stammering.org](http://www.stammering.org)**

# os ydych yn poeni am leferydd eich plenfyn neu am gael mwy o wybodaeth, ffoniwch eich Gwasanaethau Therapi Lleferydd ac Iaith lleol

Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg	Abertawe, Castell-nedd Port Talbot a Phen-y-Bont ar Ogwr
Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan	Blaenau Gwent, Caerffili, Sir Fynwy, Casnewydd, Torfaen a De Powys
Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr Wrecsam a Sir y Fflint Conwy a Sir Ddinbych Gogledd-orllewin Cymru	Ynys Môn, Gwynedd, Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, a Wrecsam, yn ogystal â rhannau o'r canolbarth, Swydd Gaer a Sir Amwythig
Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro	Preswylwyr Caerdydd a'r Fro
Bwrdd Iechyd Cwm Taf	Cwm Cynon, Merthyr Tudful, Cymoedd y Rhondda ac ardal Taf Elái
Bwrdd Iechyd Hywel Dda	Sir Gaerfyrddin, Ceredigion a Sir Benfro.
Bwrdd Addysgu Iechyd Powys	Aberhonddu, Y Drenewydd, Sir Fynwy a Threfyclo, Sir Frycheiniog a gweddill Maesyfed

Afasic Cymru yw'r unig elusen yng Nghymru sy'n cynrychioli plant a phobl ifanc ag Anghenion Lleferydd, iaith a Chyfathrebu (SLCN), a rhoddir pwyslais arbennig ar bobl ifanc â Nam Penodol ar iaith (SLI) [www.afasiccymru.org.uk](http://www.afasiccymru.org.uk).

Mae Afasic Cymru'n cydnabod Amy Hewer, Therapydd iaith a Lleferydd gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a Dechrau'n Deg Wrecsam am weithio mewn partneriaeth i gynhyrchu'r wybodaeth hon.

Ariennir cynhyrchiad y daflen hon gan  
Sefydliad Waterloo a Llywodraeth Cymru

 thewaterloofoundation



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government